



# Hunangyfeirio at Ffisiotherapi

## Beth ydy hyn?

Mae'r gwasanaeth ffisiotherapi yn eich ardal yn newid y dull o gyfeirio at y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu y bydd cleifion o bractisys meddygol yn eich ardal yn gallu cyfeirio eu hunain yn uniongyrchol am ffisiotherapi heb fod angen llythyr gan feddyg i wneud hynny.

## Pam rydyn ni'n gwneud hyn?

Er mwyn ceisio gwella a moderneiddio ein gwasanaeth.

## Pryd?

Mae'r gwasanaeth ar gael yn eich ardal chi erbyn hyn.

## I bwy mae hyn?

Mae'r gwasanaeth yn agored i oedolion oedran 18+ sydd wedi cael anaf/ yn dioddef o gyflwr cyhyrsgerbydol h.y. unrhyw un sydd mewn poen neu wedi cael anaf sy'n effeithio ar gymalau, cyhyrau a gewynnau naill ai yn y breichiau, y coesau neu'r asgwrn cefn.

## Sut bydd hyn yn gweithio?

Os ydych yn meddwl bod gennych broblem a fydd yn elwa o ffisiotherapi neu fod eich meddyg wedi awgrymu hyn i chi, yna gallwch gymryd ffurflen gyfeirio o'r fan hyn, ei llenwi gyda'r manylion sydd eu hangen a'i hanfon atom yn yr Adran Ffisiotherapi i'r cyfeiriad isod. Yna byddwn yn darllen y cyfeiriad ac yn penderfynu a yw'ch achos yn un brys neu'n un arferol. Os bydd eich cyfeiriad yn achos brys byddwn yn ceisio cysylltu â chi cyn gynted â phosib i drefnu apwyntiad. Os bydd eich achos yn un arferol, byddwch yn cael llythyr yn gofyn i chi gysylltu â ni i drefnu apwyntiad pan fydd eich enw yn cyrraedd pen y rhestr aros.

**Adran Ffisiotherapi,  
Ysbyty Bae Colwyn,  
Rhodfa Bryn,  
Bae Colwyn.  
LL29 8AY**

**Rhif Ffon: 01492 807519  
Facs: 01492807580**